Cyfres Llanbedr | MEDI, 1932. | Cyf. 32. Rhif 9.

Profwch bob peth. Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd. Y Parch T. Oswald Williams.

Cynnwys.

MEDDYLIAU CRWYDR.
YDFAES O DAN LEUAD MEDI.
DYFFRYN CLETWR FACH.
Y PWYLLGOR BLYNYDDOL.
CIPDREM AR HANES Y FAENOR.
ADOLYGIADAU.
PRIODAS. MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—
Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN BAROD Y MIS HWN.

CERDDI RHYDD CYNNAR

(Detholiad o Farddoniaeth Rydd Cynnar
XVIeg Ganrif a dechrau'r XVIIeg)

— GAN —

D. LLOYD-JENKINS, M.A.,
Tregaron

Cynnwys y gyfrol ddetholiad helaeth iawn o Gerddi, Carolau, etc., cynnar, nas cyhoeddwyd erioed o'r blaen.

Pris - - 5/-.

Anfoner pob archeb naill ai i'r AWDUR neu ynteu i—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. MEDI, 1932. Cyf. XXXII. Rhif 9.

Meddyliau Crwydr.

WRTH ddarllain Darlith Essex Hall am 1932 ar "Liberal Education for Everybody" gan Sir Michael Sadler, Master of University College, Oxford, crwydrai fy meddwl yn ôl dros y canrifoedd hir.

Costia pob plentyn yn yr Ysgol Ganol heddiw i'r wlad £28 y pen heb gyfrif a dderbynir oddiwrtho yn dâl am ei ysgol (Times Educational Supplement, Mawrth 5, 1932). Yr ym wedi crwydro 'mhell o'r adeg pan dalai plentyn geiniog neu ragor yr wythnos am ei addysg. Er cofio hynyna, y mae adroddiad Sir George May fel llwydrew ym Mai, "It is time to endeavour to reduce the cost and to reorganise the existing machine before making a fresh general advance." Y mae perigl y bradychir addysg heddiw tan gochl cynhilo.

Myn Dr. Jacks yn ei Living Universe ychwanegu at Addysg Elfennol, Ganolraddol ac Uwchraddol yr hyn a eilw yn "Addysg Uchaf", a'r Addysg Uchaf yw Crefydd. Er deall ystyr Crefydd, edrydd ymgom o'i eiddo a hen ysgolfeistr, ac yntau'n gofyn iddo "Ym mhle ar eich time-table y dysgwch grefydd". "Ni chwenychaf ddwyn crefydd i'r ysgol o'r tu allan," oedd ateb yr hen ysgolfeistr: "Yr hyn y sydd gennym o grefydd fe'i codwn ein hunain."

Y mae'n ddiddorol gweld awgrym ac ysbryd felly, wedi dyddiau'r Cowper—Temple Clause a hen Anghydffurfwyr Cymru yn ofni agor yr Ysgolion i'r Beibl. Heddiw y mae pob Cyngor Addysg yng Nghymru yn barod i ymddiried yn *honour* Athraw. Gwenaf ambell dro o glywed ambell esboniad ar yr aelwyd ond cofiaf a

ddywedai Plato am beidio dryllio'r hud ym mywyd plentyn. Unwaith yng nghyrddau'r enwad clywais brifathrawes Ysgol Channing House yn siarad ar grefydd yr ysgol honno. Sôn yr oedd am gydwybod ac wrth sôn dywedai am gorridor yno na chaniateid ond i'r athrawon ei ddefnyddio. Yr oedd y plant ar eu honour i beidio a'i ddefnyddio. Ni chospid ac ni rwystrid neb am dorri'r rheol ond ys dywedai un ferch "Ni ddefnyddiais y corridor ond unwaith wedi i chwi sôn am gydwybod".

Yr oedd crefydd yr ysgol, chwedl yr hen ysgolfeistr wrth Dr. Jacks, yn "*homegrown*" yno.

Ni wn i pryd y dechreuodd ysgolion o unrhyw fath yng Nghymru ond credaf fod gennym ysgolion cyn y dywedir i Awstin Sant lanio yng Nghaint yn 597 O.C. "gyda'r Beibl yn un llaw a Gramadeg Lladin yn y llaw arall". Y mae llawer hen fynachlog heb garreg ar garreg ohono heddiw yn gwybod mwy ond odid na ni am addysg Cymru.

Tua'r flwyddyn 1670—2 daeth copi o Fywyd Joseph Alleine ac yntau gyda llaw yn gyfaill i Fafasor Powel i ddwylo Thomas Gouge a ddistawyd yn 1662. Troes hwn ei feddwl at Gymru a chynlluniodd drefn i addysgu plant gwerin Cymru. Sefydlodd Gymdeithas wirfoddol er efengyleiddio Cymru ac yn y gymdeithas hon yr oedd Tillotson, Stillingfleet, Pool, Whichcote, Baxter, Firmin a Boyle. Eto hwyrach nad oes yr un ohonynt ag eithrio Gouge ei hun y mae Cymru'n fwy dyledus iddo na Firmin, oherwydd Firmin oedd yn chwilio arian i'r cynllun ac ef enillodd ddiddordeb Tillotson a Whichcote. Y mae yn dda gennyf am Firmin—gŵr rhydd ei feddwl a chyhoeddwr yr Unitarian Tracts. Ys dywedodd y diweddar Thomas Shankland,—

> "Talai Gouge ddwy geiniog a cheiniog yr un am bob bachgen a geneth a ddeuent i gael addysg . Dysgid iddynt ddarllain, ysgrifennu, a chadw cyfrif. Dechreuodd Gouge yn Neheudir Cymru . . . Lledaenodd y mudiad nes i bedwar cant o ysgolion gael ei sefydlu Ynghymru, a chynhelid yn flynyddol ar draul y Gymdeithas o 800 i 1000 o blant tlodion Cymru. At hyn perswadiodd y Gymdeithias Ustusiaid a boneddigion prif drefi Cymru i addysgu yr un nifer ar eu traul eu hunain ond o dan olygiaeth Thomas Gouge. Dyna ddwy fil o blant tlodion Cymru dan addysg yn flynyddol. Rhodder ddeng mlynedd a dyma 20,000 wedi cael ysgol."

Clymodd mudiad Gouge ymhen ychydig a mudiad arall trwyadl Gymraeg, mudiad Stephen Hughes ac eraill i estyn Beibl a llyfrau eraill i'r Cymry.

Er nad oes gysylltiad rhwng mudiad Gouge a mudiad y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol, y mae un ymdrech ar ol y llall yn dangos fod yna ddiwygiad "graddol a chynhyddol" yn yr Eglwys Sefydledig o 1698 i 1730. Ni fedrai 400 ysgol Thomas Gouge ddiflannu o'r tir heb adael eu dylanwad ar y werin ac arloesi'r ffordd i fudiad arall. Yn Rhagymadrodd "Dwysfawr Rym Buchedd Grefyddol" 1722 dywed y Parch. Alban Thomas,—

"Etto pan ystyriwyf pa gymmaint o ddaioni a wnaeth y Traethodau bychain hynny a brintiwyd ac a roddwyd ar led yn y blynyddoedd diweddar, fe'm hanogwyd i obeithio y dichon y traethawd bychan hwn fod o ryw wasanaeth, yn y lle lleiaf yn mysg y bobl isel-radd, llawer o ba rai ni feddant foddion i brynu llyfrau a font fwy."

Dywed Syr John Phillips, un o gymwynaswyr goreu Cymru (Erthygl T. Shankland yng Nghofnodion y Cymrodorion) mor fore a Thachwedd 18, 1701, ei fod wedi derbyn llythyr, "signed by 31 Divines and Lay Gentlemen . . . desiring the Lord Archbishop of Canterbury to issue out his circular letter to the Clergy of the Diocese of St. David's enjoining them upon all occasions to excite the Gentry to promote the erection of Charity Schools, the catechising of youth, and Family Devotions at least twice a day."

Dro ar ôl tro dengys cofnodion y Gymdeithas ei bod yn cofio am Gymru. Olrheiniodd Shankland Fudiad yr Ysgolion Rhad o 1699—1737 yn ei fywgraffiad o Syr John Phillips (Trans. of the Cym. Society 1904/5), ac mewn atodiad i hwnnw dengys fod o leiaf 124 o Ysgolion Rhad wedi'u sefydlu yng Nghymru, ac o'r nifer hwn fod dwy yn Aberteifi, 17 yn Sir Gaerfyrddin a 29 yn Sir Benfro.

Yn 1713 ysgrifenna William Lewis, Margam, "That tho' there is hardly a Parish in that part of the world where there is not a private school for teaching children to read, yet there are few or no charity schools."

Sylwer fod yr Ysgolion Rhad yng Nghymru o 1699 i 1737, a dywed Johnnes yn ei Causes of Dissent in Wales mai 37 oedd nifer Ysgolion Gruffydd Jones a Madam Bevan yn 1737. Y mae un don felly yn dilyn y llall.

Ganwyd Gruffydd Jones ym mhlwyf Cilrhedyn yn 1683 ond ni wyddis nemor ddim am hanes bore'i oes. Cafodd ei addysg yn Ysgol Ramadegol Caerfyrddin ac urddwyd ef yn 1708 yn 25 mlwydd oed.

"Deallodd Griffith Jones wrth gatecisio fod y bobl yn rhy

anwybodus i ennill unrhyw fudd oddiwrth bregethu, am na fedrent ddarllain. Gwelodd mai'r unig ffordd effeithiol i ymlid ymaith y tywyllwch oedd trwy gychwyn ysgolion darllen Cymraeg. . . . Wedi bod yn llwyddiannus yn Llanddowror, dechreuodd feddwl am gychwyn ysgolion cyffelyb mewn mannau eraill, ac erbyn y flwyddyn 1738, yr oedd 37 o ysgolion yngwahanol Siroedd a 2,400 yn derbyn addysg ynddynt. Yr oedd yr ysgolion hyn yn wahanol i'r ysgolion a fu o'u blaen a'r rhai oedd yn bod yn barod. Ysgolion teithiol ac nid sefydlog oeddynt, —tri mis neu chwe mis, oedd y tymor arferol mewn unrhyw ardal, a dygid hwy ymlaen yn yr iaith Gymraeg."

Y mae'n ddiddorol rhedeg dros restr yr ysgolion hyn yn Sir Aberteifi gan eu cymryd o Adroddiad Medi 1738—Awst 1739. Rhoir rhif y plant ar ôl enw y lle : Llanddewi-brefi 105 ; Llandyssul 70 ; Llandysiliogogo 51 ; Cydblwyf Llanina a Llanllwch-haiarn 75 ; Llansantffraed 170 ; Llanbadarnodwyn 66 ; Llanbadarn Church 63 ; Trefilan 95 ; Llanfihangel Ystrad 110 ; Lampeter 99 ; Ditto at Lampeter 50 ; Tregaron 30 ; Llanddewi-aberarth 87 ; Henfenyw 60 ; Llanwynnen 82 ; Nantcwnlle 48 ; Llanwenog 50 ; Cardigan Town 40; Llanrhystyd 48 ; Henllan 99 ; Pantymawr 50 ; Pencarreg 67.

Nid yw hynyna ond awgrym er dangos fel yr oedd y syniad wedi cydio ym meddwl y wlad. Ar y 29 o Chwefror 1746—7 ceir Llythyr oddiwrth y Parch. Da : Lloyd yn rhoi gair da i ysgolfeistr ac ysgol Rhydowen, Llandyssul. Y mae rhamant yn adroddiadau Welsh Piety 1740—1746, lle dywed Griffith Jones :

"The first attempt this way was tried about seven or eight years ago with no other fund to defray the expence of it, than what could be spared from the occasions out of a small offertory of a poor country congregation at the Blessed Sacrament."

"By the best calculation on a transient view, the number tonight in these schools within the Counties of Carmarthen, Pembroke, Brecon and Cardigan since lst September—inclusive of such as)are now learning—makes at least Two thousand Four hundred. Very few of these could say so much as the Lord's Prayer when they came first to school and many of them could in six or eight week's time not only read tolerably but repeat by heart all the Church Catechism in their native Welsh Language."

Wedi ysgolion Gruffydd Jones cododd yr ysgolion Sul—coleg y werin—gydag ymdrech Robert Raikes yn 1780 ac ymdrech Thomas Charles o'r Bala a agorodd ei ysgol gyntaf yn 1789.

Tua diwedd y ganrif clywid am ysgolion Dr. Andrew Bell ac ysgolion Joseph Lancaster. Ni chostiai ysgol plentyn dan gynllun Lancaster ond rhyw goron y flwyddyn. O'r ysgolion hyn y datblygodd y "National" a'r "British Schools".

Ni roes y Llywodraeth grant er codi ysgol dan 1833 pan gostiodd £20,000. Yn 1870 y daeth Deddf Addysg y gŵyr y mwyafrif ohonom amdani, a gwyddom am fwstwr Deddf Addysg 1902. Bu raid aros yn hir cyn cael yr Ysgolion Canol a Choleg y Brifysgol. Diddorol ryw ddydd fydd pennod lawn o hanes yr hen Academiau Undodaidd yng Nghymru, ac fel y dywedais mewn cylchgrawn arall:

> "With our advantages we may scoff at the humble academies of these Unitarian Ministers, but when the history of Education in Wales comes to be written, a prominent niche will be reserved for the humble but priceless labours of those almost forgotten Unitarian Ministers in their unadorned academies."

Ydfaes o Dan Leuad Medi.

"Tlws yw'th loergan ar y maes
Ym mhriodas yr ysgubau."

EISTEDDAIS ar lechwedd, ac mewn man anghysbell, dan dduwch dechraunos. Yr unig gydymaith a chwenychais oedd ci, fy nghyfaill Mot. Gwyddwn y buasai ef yn mwynhau'r wledd a ddisgwyliwn. Cyfetyb ein chwaeth mewn llawer cyfeiriad. Rhennir gennym yn fynych yr afiaith hwnnw a ddaw wrth gefnu ar dwrw'r dref a defodau dynion. Yn awr, wedi iddo grwydro'n hir, yn ôl ei elfen, gorwedd yn flin wrth fy nhraed.

Y tu ôl i mi, cwyd lleuad lawn y cynhaeaf dros fryniau pell. Cerdd gyda rhwysg dros lwybr o liw glas y saffir. Ni sethrir ei phalmant hi heno gan yr un cwmwl gwamal. Cuddir ei gwenau cyntaf â gwrid tyner o felyngoch. O dipyn i beth, diflanna hwnnw, a theflir lloergan yn ariannaid dros dir a thon.

Odditanaf, gorwedd ydfaes helaeth sy'n gŵyro i gyfeiriad y môr. Weithian, diog yw cryman a phladur y medelwyr. Brithir un hanner o'r cae gan gwmniau afrifed o ysgubau. Safant yn drioedd llonydd mewn tête-a-tête. Beth, tybed, yw'r testun yn y gyfeillach

felys hon? Dyfelais lawer oni thybiais mai dirgelwch sydd yn eu calon. Methwn a deall yr achos o'r cyflwr newydd hwn. Ond, na. Hwyrach bod iddynt reddf a'u hysbysa fod ydlan ac ysgubor yn eu disgwyl. Yno, diddosir hwy rhag drycin y gaeaf cyfagos. Os felly, llawen ydynt yn y gobaith am gronglwyd. A ŵyr y lloer beth fydd tynged yr ysgubau hyn? Un peth a wn i, gwena hi yn serchog arnynt.

Ar hanner arall yr ydfaes saif gwenith ar draed megys byddin o filwyr syth. Nid eu gwasanaeth hwy fydd lladd na distrywio eithr yn hytrach, cynnal a chryfhau. Dangosodd y dydd mai melyn oedd y tywysennau addfed. Cyflawnodd y lleuad wyrth wrth fwrw hudlath ei gwenau nes troi'r aur yn arian.

Teyrnasa tawelwch didor dros y fangre. Er hynny, geill gadw sŵn hyawdl. Sain gyfriniol a berthyn iddo. Yn astud, disgwyliais am gyfle i loffa cyfrinachau.

Ust! Dyma newid ar y nodau. Dan gyffyrddiad awel dyner a gwylaidd, daw si cyfareddol i'm clyw. Mae urddas yn y sain, ac arwydd yn yr osgo fod y Tylwyth Teg yn agos. Ceir dawns ysgafn megys tonnau mân o arian byw. Ar fyr, tyf yr awel mewn grym gan rychu'n ddyfnach a chreu melodi sidanaidd. Bellach, wele fôr o ferw gwyn. Am ennyd, digiais wrth y cymhelri, nes cofio mai "gwynt dros dir" a'i cynhyrchodd. Darogan hyn dywydd teg, ebr traddodiad y fro.

Wrth wylio gwenau y lleuad ar y môr o wenith, llithrwyd fi yn ôl i fwynhau miri fy maboed mewn hud a lledrith. Hawliodd y lloergan imi, am orig, y fraint o syllu drwy lygaid plentyn. Lluniodd fy nychymyg innau goblin ar gorun pob tywysen yn chwareu mig â'i gilydd, oni ferwodd y fangre gan boblogaeth heinif.

Henffych well, Dylwyth Teg! Chwerddais mewn gorfoledd gan fwynhad pur. Pwy a wâd imi y pleser? Profais, ar yr un pryd, unigedd a chymdeithas, a hynny ym mhriodas ramantus y nos a'r dydd. Ar fyr, dadebrwyd fi. Rhegen yr Yd a achosodd y cyfnewidiad. Dychrynodd ei lleisiau aflafar fi am eiliad, eithr ymdawelais wrth ddeall mai ei thalaeth hi yw hon.

Wedi imi fwrw'r ofn, dychwelais eto i hwyl. Cododd dau syniad gwahanol o'r golwg a gefais ar yr ydfaes. Ar y naill law, ceid tyrfa lon a hoyw, ond gwelw a sefydlog oedd y fintai arall. Dameg o fywyd yw un hanner, a darlun o farwolaeth sydd gan y llall i'w gyflwyno. Mae un rhan yn byw i farw, a'r llall ym marw i fyw eto—yn y Gwanwyn. Am encyd, segur yw pladur y didolwr.

I dorri ar fy myfyrdod daeth oergri o odre yr ydfaes. Aflonyddodd hefyd ar gwsg melus Mot. Ar amrant, rhuthrodd drwy berth ac i ganol yr ysgubau. Gwelais ef yn ffroeni, igam-ogam, am ychydig, yna, gwedi cael pen y llinyn, yn mynd at y gwenith. Beth, tybed, a gynhyrchodd y gri ? Cwningen, mi gredaf, a erlidiwyd gan wenci. Dacw Mot yn neidio megys drychiolaeth ymysg y gwenith tal. Bob yn eiliad, ymddengys ei ben gwyn a'i glustiau duon ynghanol y tonnau ariannaid. Doniol iawn yw'r olwg arno yn llamu, llamu.

A ! Wele ysgyfarnog, gyda chyflymder ergyd o ddryll, yn brathu allan o'r yd, ac yn gŵyro'i llwybr rhwng yr ysgubau. Ar yr un foment, cwyd haid ofnus o betris gan hedfan yn isel uwch fy mhen am faes arall, a thangnefedd. A barnu oddiwrth y swn, credaf, bob amser, mai adenydd o bren sydd gan yr aderyn hwn. Dacw Mot i'r amlwg, gan ruthro a holl gyflymder ei goesau byrion. Mae ar gamre yr ysgyfarnog,—ond, druan ohono. Ychydig o obaith sydd ganddo i'w chyfarfod hi eilchwyl.

Wel, mae hi'n bryd i mi droi am fy nghartref. Af i lawr i waelod yr ydfaes at y llwybr a arwain i'r dref. Cerddaf gydag ochr y clawdd ar y chwith. Yno, ceir llwyni mwyar ac eirin bach a dduwyd gan wres yr haul. Disgleiriant megys perlau mân, dan wenau tanbaid y lleuad.

Dyma fi wrth gyfyl derwen ddeiliog a deifl ei thywyllwch yn drwm dros y ffin ar ddarn o'r maes. Mae du'r cysgod, a gwyn y lloergan yn bendant. Erbyn hyn, tawelodd yr awel, a chlywais, o'r herwydd, sŵn cyffro'r llygod a'r cwningod yn yr yd.

Mot. Mot—Dere, gi bach ! !

J.S.R.

Dyffryn Cletwr Fach.

NID oedd Thomas Humphreys yn ofergoelus ond yr oedd yn tueddu i ymlynu erth hen arferion a thraddodiadau. Bob blwyddyn tua machlud haul ar y 30 o Ebrill, gwelid ef yn dyfod at y tŷ o ryw berth neu gilfach yn ceseilio swp o irwydd at " groeso'r Haf " meddai ef. Ac wedi tynnu ymaith o fargod y tô—uwchben y drws a'r ffenestri y rhai a osodwyd yno ganddo y flwyddyn flaenorol, gosodai gyda'r manylrwydd mwyaf, y cangau gwyrddlas yn eu lle. " Dyna " meddai wedi gorffen eu gosod,

" pwy fydd byw i groeshawu'r Haf y flwyddyn nesaf ". Ni wn beth oedd y ddefod hon yn olygu ; ni chlywais erioed mohono yn ceisio egluro. Ymlynai wrth lawer iawn o bethau cyffelyb i hyn.

Yr oedd bob amser yn hoff iawn o sôn am yr Haf. " Dyma " meddai " y tymor sydd yn gyfrifol am baratoi lluniaeth i ddyn ac anifail erbyn y Gaeaf llwm ; daw hwnnw ar ein gwarthaf yn fuan iawn."

Ond os nad oedd yn ofergoelus yr oedd yn hyddysg ym myd y gwylliaid ac yn fedrus mewn dehongli dyledswyddau y Toiliod, Gwrach y Rhibin, Tylwyth Teg, Cŵn Bendith y Mamau, ac amryw eraill a oedd yn perthyn i fyd y Bwciod. Yr oedd hefyd yn bur gyfarwydd ag athroniaeth y lloer. Diddorol oedd ei glywed yn athrawiaethu ar ei dylanwadau ar ddyn a chreadur a phlanhigin, ond os gofynnid iddo pa fodd y gwnai'r lloer filoedd o filltiroedd oddiwrthym ddylanwadu ar y rhai hyn, ei ateb oedd, " Pam lai y mae hi yn cario busnes ymlaen yn y gwledydd pell—*Cape Horn* a *Cape Town* yn ogystal a chyda ni yn y wlad hon, y mae'r trai a'r llanw yno yn cadw eu hamser i'r eiliad."

Yn y flwyddyn 1879 cafodd ei gystuddio'n drwm gan yr ysgyfeinwst, ac am ryw ddau neu dri niwrnod bu'n tafoli rhwng dau fyd, ond cyn iddo gyrraedd y cyflwr hyn daeth un o'i gyfeillion at erchwyn ei wely i wneud ei ewyllys ac wedi gorffen y gorchwyl, meddai ef, " Dyna fi wedi trefnu pethau'r byd hwn, a gallaf ddweyd nad oes arnaf ddyled i neb yr ochr hyn i'r ffin, ac os y bum i trwy fy oes yn ffyddlon i'm dyledswyddau, nid âf i'r byd arall fel methdalwr." Mewn ychydig amser wedi iddo gael gwellhad dywedodd—gan gyfeirio at ei salwch, " Mi gefais i rehearsal gyflawn o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd i mi yn fuan iawn, ac y mae llai o fraw arnaf i wynebu'r amgylchiad nag o'r blaen ". Ond bu fyw am hir gyfnod wedyn a chyfansoddodd lawer pennill a chân. Yn wir gellir meddwl ei fod wedi ennill rhagor o nerth meddwl a bod ei awen yn gryfach. Dyma'r adeg y cyfansoddodd yr emyn sydd ganddo ym " Mherlau Moliant ". Wele ddau bennill ohono :—

" Daeth Iesu Grist, Tywysog Hedd,
I'n harwain oll i'r iawn,
Trwy ddrygau bywyd, nos y bedd,
I'r bythol wynfyd llawn.

Am y fath gariad molwn Dduw,
Bob un âg uchel lef ;
Boed holl ddymuniad dynolryw
A'u serch ym mhethau'r nef."

Fe ddywedir fod i ddyn sylwgar lawer o athrawon na ŵyr neb am danynt. Y mae'n cymryd gwersi oddiwrth y ddôl a'r afon, y maes a'r goedwig, y graig a'r mynydd. Tybia rhai fod gan olygfeydd bore oes ryw ddylanwad nerthol yn nisgybliad y meddwl a ffurfiad y chwaeth, a honna eraill y gall y darllenydd wybod wrth ddarllen llyfr, hydred ac arwynebedd y fan yng nghyd a'r tymor o'r flwyddyn yr ysgrifennwyd ef. Yn ôl y dybddysg hon, y mae pob dyn o athrylith yn dwyn nodweddau mangre ei enedigaeth. Fe ellir dweyd fod Gweydd Penlôn wedi cyfranogi'n helaeth o ddylanwadau bron Gwaralltryn a moel Pantsgawen a banc yr Esger, lle y bu'n gweithio wrth y cynhaeafau—gwair ac yd er pan oedd yn laslanc. Mynych y crybwyllai am fedi a rhwymo ar y meysydd cyfagos i'w gartref, ac nid oedd y fedel byth yn gyflawn heb ei bresenoldeb, oblegid yr oedd arabedd ei awen yn cadw pawb yno mewn hwyl. Daeth llawer rhigwm grymus o'i waith allan o'r cae llafur ; tebyg i hwn :—

" Fe godais yn fore, fe rwymais drwy'r dydd,
Fe rwymais rai cannoedd, daeth llawer yn rhydd ;
Fe weithiais sopynnau, 'does arna'i ddim braw,
Y gwlychant eleni, os na ddaw hi'n law."

Pan oeddent yn medi ar un prynhawn ar fanc yr Esger, gofynnodd un o'r fedel iddo am enwi ffermydd a lleoedd yn y gymdogaeth ar gân. Ac meddai yntau ar unwaith :—

" Gwaralltryn a Gwardafolog, Ffinant, Fadfa, Waun a Pledrog,
Llawrcwrt, Galltmaen, Capel Cynon a Llangranog ;
Meinigwynion, Gwaralltfairdre, Rhydsais a Nantygwydde,
Tyncae, Tynlôn, Gwarcwmbach a nôl i'r Trafle ;
Blaencwm Coy a Chastell-hywel, i'r tŷ Tywyll heibio'r Efel,
Tangraig, Frondes, ac i'r lan i'r Gilfach-dawel."

Ystyrrid ef yn ymgorfforiad o ddiniweidrwydd, ac aml y soniai ef ei hun, nad oedd erioed wedi lladd milyn na phryfyn. "Mari" meddai unwaith wrth ei chwaer, " dere yma a lladd y gwyfyn hyn ", ac ufuddhaodd hithau. Rhy anhawdd yw deall ei ymddygiad yn yr achos hwn am mai ef mewn gwirionedd oedd wrth wraidd y weithred o ddienyddio'r gwyfyn,—*accessory before the fact* meddai'r Sais.

Mae'n wir na welais i mohono yn ceisio lladd na niweidio unrhyw greadur,—bach na mawr, ond gwelais ef unwaith yn ceisio dychrynu ci. Yr oedd yn arferiad gan wragedd y dyffryn i ddod ag edafedd i'r gweithdy at wneud brethyn a gwlanen, ac un bore daeth gwraig yno a chi mawr yn ei chanlyn a dechreuodd hwn ar unwaith fwyta

bwyd yr ieir a oedd dan y gwŷdd. Dywedodd y Gweydd wrtho yn lled sarug, "bwyd yr iar ddu yw hwnyna, gâd iddo ar unwaith". Ond ni chafodd y gorchymyn ddim dylanwad ar y ci, ac wele'r Gweydd yn awr yn cydio mewn ffon ac yn ei chodi'i fyny uwch ben y creadur gan ei rybuddio drachefn, "gâd iddo 'nawr neu yr wyt yn mynd i gael blas y ffon yma". Edrychodd y ci yn ei wyneb gan noethi ei ddannedd. Dychrynodd hyn y Gweydd ac eb efe "oes y mae dannedd gwynion braf efo ti, maent fel yr ifori, byt ymlaen, byt e' i gyd, a mi gymysga' ragor i ti os wyt ti am dano". Wedi i'r ci orffen bwyta aeth at ei feistres i'r gegin, ceuodd Gweydd Penlôn ei lygaid, a'i lais yn grynedig dywedodd :—

"Pan welais maint ei ddanne'
Dywedais, do, heb ame,
Cyn pen awr, bydd mawr y sôn
Fod Gweydd Penlôn yn llarpe."

Arferai gario ymlaen ymgom ddychmygol efo'r ieir, y cathau a'r coed, fel pe baent yn ei ddeall. "Ni allaf fi ddim gwneud rhagor na datgan fy marn wrthynt mewn iaith groyw, os nad ydynt yn fy neall, nid fy mai i yw hynny," meddai.

Gorchymynnodd un tro i Mari ei chwaer gario cenadwri oddi wrtho at yr iar las. "Gwed wrthi" meddai "nad ydym wedi cael ŵy ganddi ers tri mis ac os nad yw hi'n mynd i dalu am ei bwyd bydd rhaid ei gwerthu i ddyn o'r enw Thomas Lewis, *Game Dealer*, Llandyssul, a thebyg iawn os ei gwerthu iddo wnawn, y caiff hi driniaeth lled arw, clymir ei thraed a theflir hi yn ddiseremoni i fysg dieithriaid yn y cert, dyna stori blaen iddi."

Yr oedd yn ddyn trefnus ac yn ddarbodus iawn gyda phethau'r byd hwn. Nid oedd dim gwastraff i fod. Ar derfyn ciniaw un diwrnod, yr oedd un daten ar ôl yn y cawl. Gofynnodd i mi os y mynnwn hi ; dywedais fy mod wedi cael digon. Gofynnodd i Mari pa sawl taten oedd hi wedi roi yn y cawl y diwrnod hwnnw, "tair ar ddeg" meddai hithau. "Un yn llai 'fory cofia" meddai ef.

Glan Glowon.

Y Pwyllgor Blynyddol.

CYNHALIWYD hwn yn y Cribyn fore Mercher, Awst 10, pryd yr oedd cynhulliad da o ffyddloniaid wedi dod ynghyd. Darllenwyd llythyr oddiwrth y Llywydd Mr. Thomas Botting yn datgan ei ofid am nad allasai fod yn bresennol ac yn dymuno llwyddiant mawr i'r oll o waith y dydd.

Etholwyd Mr. D. Tyssul Davies i'r gadair ac aeth drwy ei waith os dim yn well nag erioed. Bu ei ddoethineb a'i fedrusrwydd yn foddion i gael cyfarfod gwir fuddiol. Gwnaeth y cadeirydd gyfeiriadau tyner at y golled fawr gafodd ein Cymdeithas a'n heglwysi ym marwolaeth y Parch. T. Arthur Thomas ac ar ei gynygiad ef pasiwyd fod cydymdeimlad llwyraf y Gymdeithas yn cael ei ddanfon i'w deulu.

Wedi derbyn cofnodion y Pwyllgor blaenorol cafwyd adroddiad o'r safle ariannol gan y Trysorydd. Yr oedd yn adroddiad manwl a chlir ac amlwg yw fod galw ar bob Eglwys ac unigolyn i fod yn ffyddlon gyda'u cyfraniadau er diogelu'r safle. Diolchwyd yn gynnes i'r Trysorydd am ei adroddiad llawn. Pasiwyd ein bod yn gadael i'r gweinidogion i geisio tynnu allan gynllun o sicrhau casgliadau rheolaidd.

Capital Fund.—Cafodd y cwestiwn o beth i'w wneud a hon ystyriaeth lled fanwl. Pasiwyd i beidio ei rhoi i fyny ac ein bod yn ceisio ei chwblhau pan ddaw amser gwell. Derbyniwyd yr awgrymiadau canlynol oddiwrth y Trysorydd ynglyn a hi: (1) Fod yr arian a gasglwyd at y Gronfa hon i'w gosod ar lôg mewn "Consols"; (2) Fod y llog ar yr arian a gasglwyd heb amod ond yr un o fwriad ein myfyrwyr i fynd i'r weinidogaeth Undodaidd—i'w weinyddu ar yr unrhyw egwyddor; (3) Fod y Gymdeithas ynghyd a Chymdeithas y S. E. Wales yn ychwanegu swm digonol—hanner yn hanner—i alluogi prynu gwerth £200 o "Consols" a thalu am y weithred; (4) Fod y Gymdeithas yn gofyn i'r sawl a addawodd danysgrifiadau—ac sydd a'u hamgylchiadau'n dal yn weddol dda—i gyflawni eu haddewidion a bod unrhyw swm a dderbynir i'w defnyddio i brynu "Consols" yn ychwanegol at y £200 a awgrymwyd; (5) Fod ymddiriedolwyr i'w dewis i brynu'r stoc a gweinyddu'r llog; (6) I osgoi treuliau, fod yr un ymddiriedolwyr a weinyddant y "Philemon Moore Trust" i'w dewis i weinyddu'r Gronfa hon hefyd; (7) Fod yr un cynllun i'w fabwysiadu i weinyddu hon ag un Philemon Moore; (8) Fod unrhyw danysgrifiadau dyfodol i'w defnyddio i brynu "Consols" ychwanegol.

Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd gymeryd gofal Penrhiw hyd ddiwedd y tymor. Llongyfarchwyd yn gynnes iawn y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr, ar ei waith yn sicrhau nifer o wobrwyon yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Grants.—Cafwyd ar ddeall mae yn herwydd prinder arian fod y *grants* a wnawd llynedd heb eu talu eto. Pasiwyd fod y Trysorydd i'w talu cyntcd y caniata y cyllideb, ac fod y mater o wneud grants am 1932 yn cael ei ohirio hyd Bwyllgor yr Hydref. Addawodd

Mrs. Jones, Y Bryn, Llanybyther, apelio at ganghennau Urdd y Benywod am gymorth i chwyddo'r cyllideb.

Gweithredoedd Penrhiw.—Trefnwyd fod yr Ysgrifennydd i wneud ymchwiliad ynglyn a'r rhai hyn erbyn Pwyllgor yr Hydref. Rhoddodd Mr. W. S. Jones rybudd y bydd iddo yn y Pwyllgor nesaf gynnig newid enw Cronfa'r Myfyrwyr fel ag i ddarllen fel hyn : "Cronfa Myfyrwyr Undodaidd Cymru" (Unitarian Students Fund of Wales).

Swyddogion.—Etholwyd fel y canlyn. Llywydd : Y Parch. H. H. C. Jones, Aberdeen ; Is-lywyddion (anrhydeddus) : Mrs. Jones, Gellifaharen a Mrs. Jones, Y Bryn ; Trysorydd : Mr. W. S. Jones ; Ysgrifennydd : Y Parch. E. O. Jenkins : Pwyllgor y Myfyrwyr : Mr. W. S. Jones, Parch. D. Evans a'r Parch. E. O. Jenkins ; Pwyllgor Cynghorol : Mr. W. S. Jones a'r Parchn. E. R. Dennis a E. O. Jenkins.

Trefnwyd fod Cyfarfodydd yr Hydref i'w cynnal yng Nghapel-y-groes ac eu bod yn gyrddau sefydlu y Parch. Dewi James Jones yn weinidog Eglwysi Capel-y-groes a Chribyn.

Cipdrem ar Hanes Y Faenor.

GYNT arferid claddu *o fewn* yr eglwys yn ogystal ag oddiallan, ac i Rhys y rhoddwyd y gorchwyl fynychaf o wastadu'r twmpathau. Am hyn o waith rhoddwyd iddo chwecheiniog y tro. Jane Welsh,—gwraig Thomas Carlyle,—'rwy'n meddwl a anogodd lodesi i beidio a phriodi gwyddonydd. Gallasai gwraig Rhys roddi cyffelyb gyngor. Digysur odiaeth a fu ei bywyd hithau. Pan 'roedd ei phriod yn ceisio dadrys rhyw broblem mewn rhifyddiaeth yr oedd hi druan yn ceisio dadrys problem arall—sut oedd cael anghenion y corff. Ond bu mor ffyddlon i'w gŵr a'r *dial* i'r haul. Dyma'i chŵyn fwyaf. Yr oedd Rhys yn seryddwr tan gamp. Llawer gwaith drwy gydol y nos finiog gwyliai drwy ei ysbienddrych ar y sêr yn "rholiaw o'u cysawdiau"—chwedl Telynog. Pan gyrhaeddai planed ryw le neilltuol yn yr entrych mynnai Rhys wybod yr amser i'r eiliad. Gorchwyl ei briod oedd gwylio'r cloc a bloeddio'r amser yn ol i'r nos ! Ambell waith ai cwsg yn drech na hi ac yn ofer y ceisiai Rhys ei deffro,

Er cymaint serch Rhys at y difrifol nid oedd heb beth serch at y digri. Rywdro collwyd ef o'r plwy am yspaid hir a phan ddychwelodd gofynnwyd iddo ym mha le y bu. "Dome St. Paul's" yn Llundain, mae'n debig, oedd wedi symud oddiar ei seiliau a cheisiwyd gan Rhys roi ei ysgwydd odditano a'i gymhwyso! Mae'n berffaith wir iddo fod yn Llundain. Cerddodd yn ôl a blaen. Gwyddai mai dwyreiniol oedd cyfeiriad y brif ddinas a diddorol ydyw sylwi mai ei gwmpawd oedd yr eglwysi sefydledig am y gwynebent i gyd doriad gwawr.

Er codi o Rhys yn yr eglwys mae'n amlwg nad oedd yn credu yn ei chyffes ffydd. Cyhuddwyd ef o fod yn anghredadyn ond prin y deil y gosodiad ddŵr. Hyd y gwelaf i credai yn ffyddiog yn ei Dduw, a choleddai syniadau am grefydd ac addoliad nad allesid eu condemnio. Ond rhoddodd cwestiwn yr adgyfodiad gryn drafferth iddo. Yr oedd wedi darllen yn eang am *brocess* Chemical Biology ac yn ei fyw ni fedrai gysoni y ddwy ddysgeidiaeth. Cyhoeddodd ei farn pendant ar y mater mewn triban a chyn ei farw archodd ei gyfeillion i'w rhoi ar ei garreg fedd, ac fel y gwelsom eisoes, felly y bu. Tarawodd y pennill nodyn ansoniarus ar glyw yr offeiriaid. Ffromasant gymaint o weled y fath gabledd yn ysgrifenedig o fewn ergyd carreg o'r eglwys ei hun, fel, cyn hir, gwelwyd taflu o'r fedd-faen allan o'r fynwent yn hollol ddiseremoni. Gorweddai mewn cae cyfagos yn wrthrych trueni am flynyddoedd. Ymhen amser daeth Rheithor mwy llydan ei feddwl ac eangach ei drem i'r plwy. Mynnodd y garreg yn ôl i'r gladdfa ond erbyn hyn ni wyddai neb lle gorweddai Rhys. Nis gŵyr neb heddiw ychwaith. Nid oedd ond un peth a *ellid* wneyd—ei gosod ar fur yr eglwys. Y mae yno o hyd ac yn dweyd ei stori syml mor hyawdl ag erioed.

Bryd bynnag yr af i'r Faenor byddaf nemor fyth yn dychwelyd heb fynd heibio iddi, ac o'i darllen suddaf, fynychaf, i fyfyrdod melys-ddwys. Daw "Hathren" i'm cof, oblegid ef a'm harweiniodd drwy y glaswellt hirgoesog i'w gweled am y waith gyntaf. Dyfnder haf oedd hi ac er chwimed dawns y mellt ar grib y Morlais, cu iawn i mi oedd gwrando fy nghyd-deithydd hoff yn galw 'nôl ar glychau aur y gwynt yr amser hyfryd fu.

Mab y Mynydd.

Y BEIBL.

Llyfyr da rowd i lefaru—geiriau
Garodd Duw gyfrannu:
Y dasg i ddyn yw dysgu
Ei ddwyfol lân ddeddfau lu.

L.W.

Adolygiadau

AR LYFRAU A GEIR O ESSEX HALL, LLUNDAIN.

THE BIBLE TO-DAY by Herbert Mc.Lachlan, M.A., D.D. Pris 1/-.

THE FRIENDLY CHURCH, by Arnold H. Lewis, B.D. (Lond.). Pris 1/-.

SOME RELIGIOUS CULTS AND MOVEMENT OF TO-DAY, by Herbert Crabtree. Pris 1/-.

FUNDAMENTALS OF MODERN RELIGION, by R. F. Rattray, M.A., Ph. D. Pris 1/-.

Ni chredaf i mi ddarllain erioed lyfrau bach mawr y sy'n dwyn y wybodaeth oreu atom mewn cyn lleied o gwmpas. Rhyw 60 tudalen ydynt ond y maent yn fwy na gwerth yr arian. Fe fuasai'n dda gennyf gymryd pob un ohonynt a rhoi eu cynnwys i'm darllenwyr ond nid dyna fy amcan. Fe wnai les i ben a chalon pob aelod i ddarllain y cyfrolau hyn er gweld ymhle y saif y byd heddiw.

"We think our fathers fools
So wise we grow;
Our wiser sons no doubt
Will think us so."

Nid llyfrau sych mohonynt. Medr Prifathro Coleg awgrymu esboniad o'r gair Selah a geir yn y Salmau fel y gair a ddoi dros wefus Dafydd bob tro y torrai tant o'i delyn. Ceir yn Llyfr y Prifathro ein safbwynt ni ar y Beibl. Cynnwys y Beibl fel Llenyddiaeth Defosiwn, Golygiadau hen a newydd, dylanwad efrydiaethau modern arno, Lle Rheswm yn Efrydiaethau Beiblaidd, y Beibl yr hyn yw a'r hyn nad ydyw a'r Alwad i astudio'r Beibl. Y mae'n dda cael gair o galondid ar dro pan ddywed Dr. Moulton :—

"We very cheerfully give the Unitarians credit for being among the pioneers in a movement in which they have done some of the work and we have reaped most of the fruit."

Fe fyddai'n ddiddorol i bob un ddarllain y gyfrol hon drosto'i hun er gweld y byd yn symud i gyfeiriad safbwynt y teidiau gynt.

Y mae llyfr Arnold Lewis ar "A Friendly Church" yn awgrymiadol iawn. Fe fyddai'n nefoedd yn Eglwys Dduw pe gweithredid awgrymiadau Lewis ymhob Eglwys. Nid oes ganddo yma ddim ond a ddylasai nodweddu cymeriad Eglwys Dduw. Ni chaniata gofod ond un difyniad :—

"When a person goes to church he wishes to be received as a person with every idiosyncrasy, with every peculiarity that has at the time a necessary place in his total character. Many of his opinions may be mistaken; but until he can learn better, even these are a part of his value, for at least they suggest vigilance in the keeping of his citadel . . . he is an honest man; he cannot believe that he would be worth more dishonest; he cannot think that the surgical removal of an error, or the artificial introduction of a 'truth', can compensate him, or society, for the loss of his integrity."

Y mae Herbert Crabtree yn delio a thestunau megis Christian Science, Theosophy, a Spiritualism. Fe fyddai'n werth i lawer sydd yn chwerthin o ddilyn *case* Mrs. Meurig Morris y dyddiau hyny wybod beth sydd gydag Undodiaid i ddweyd ar y broblem. Nid yw'r ffaith yr wffter y neb a gred mewn Ysbrydegaeth yn ddim praw o ddim.

"In this country alone there are some 800 Spiritualist Churches and Societies, the greater number of which hold religious services every Sunday . . . of these about 460 are affiliated with the Spiritualists' National Union and adopt the 'Seven Principles of Spiritualism' which are as follows:

I. The Fatherhood of God.
II. The Brotherhood of Man.
III. Continuous Existence.
IV. Communion of Spirits and Ministry of Angels.
V. Personal Responsibility.
VI. Compensation and Retribution hereafter for good or ill done on earth.
VII. A Path of Endless Progression."

Ni welaf nemor ddim yma y bydd yn rhaid i neb wylltu o'i achos a sicr y mae'n ddiddorol darllain.

"Whilst in regard to the person of Christ the bulk of the churches (and especially those organised in the S.N.U.) are Unitarian."

Y mae'n werth i ddyn gadw meddwl agored, a rhagorol yw casgliad yr awdur:—

"Psychical research, physical research, biological research: these are probably the most important departments of human inquiry to-day. The signs are patent that they are gradually drawing together and are seeking some common category of thought in which their results may be harmoniously co-ordinated. The time for that co-ordination is not yet, nor is it remote. In the relatively near future we may expect to find conclusions elaborated of the greatest importance for man's happiness and spiritual peace."

Digon yw awgrym o gynnwys llyfr Dr. Rattray er dangos ei werth. Y mae yn cynnwys erthygl a ymddangosodd ym "Mind" a hefyd ddarlith o'i eiddo. I'r neb a fyn wybod rhywbeth am Determinism, Mind and Matter, Evolution of Mind, Inheritance and the Individual, Personal Identity, Ethics, Survival of the Death of the Body and the Transcendent Universe, ni fedrir cael gwell "handbook" na'r llyfr bach hwn. Ni phroffesaf i ddweyd fy mod yn deall pob dim o lyfr Dr. Rattray heb sôn am ei bwyso a'i farnu. Digon i mi ydyw ei ddarllain a cheisio ei ddeall. Wedi ceisio dilyn yr awdur o hirbell a diolch iddo am lawer awgrym calonogol, diddorol yw dychwelyd a'i glywed yn dywedyd:—

"Religion consists in putting oneself in harmony with reality, through truth, goodness, and beauty, and bringing forth its fruits."

Mewn oes fel hon, pan ddywedir fod y duedd i gefnu ar yr eglwysi, y mae ergyd y llyfrau bach yma yn y cyfeiriad iawn a difynna Dr. Rattray a ganlyn i ddiweddu:—

"'Great is the privilege', says Mr. Lawrence Hyde in the Prospects of Humanism, 'of attending a gathering which is specifically sacred in character, which is held in a place set apart from other places, in which, not only the interior aspects of the building, but everything which takes place therein symbolizes the fact that the ordinary wordly state of mind has been momentarily forgotten; in which those present are not simply associated, but *united* in something which transcends them all'."

Priodas.

Dydd Sadwrn, Awst 6, yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon, o flaen y Cofrestrydd a'r Parch. E. R. Dennis, priodwyd Mr. David Thomas Williams, "Brondeifi," Clifton St., Aberdâr, â Miss Rachel Morfydd Davies, Ardwyn, Trecynon, merch Mr. a Mrs. D. Tyssul Davies, D.C., J.P. Dymunir iddynt bob llwyddiant a dedwyddwch gan eu cyfeillion lluosog.

Marwgofion.

Mai 27, yn 66 mlwydd oed, bu farw William Davies, Llysfaen uchaf, Llanwnen, wedi dihoeni drwy'r gwanwyn. Mab ydoedd i'r Rhydderchlwyd Cellan, hen deulu sydd wedi bod ynghlwm â Chaeronnen ar hyd y blynyddoedd a hen deulu caredig at yr achos. Nid oes yn aros o'r teulu hwn ond dwy chwaer yr ymadawedig. Nodweddid yntau a charedigrwydd a chalon barod y teulu. Yr oedd yn weithiwr caled, yn amaethwr cyfrifol ac yn gymydog parod i gynorthwyo. Bellach y mae wedi blaenu gan adael gweddw a phlant, dwy chwaer a pherthynasau eraill i alaru o'i golli. Claddwyd yn naear mynwent Caeronnen a gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchn. J. N. Evans, B.A. a T. O. Williams, M.A., Caeronnen.

Gorffennaf 24, yn 27 oed, bu farw Mary Ellen Jenkins, Gwernfryn, Cwrtnewydd. Yr oedd wedi bod yn wael ei hiechyd ers llawer blwyddyn, ond parhaodd yn siriol iawn hyd ddydd olaf ei bywyd, ac yn hyn bu yn gysur mawr i'w mam yn ei gofal tyner a'i phryder am dani. Athrawes mewn ysgol ddyddiol oedd Mary Elen wrth ei galwedigaeth, a bu yn athrawes ffyddlon iawn hefyd yn ysgol Sul ei chapel—ac yr oedd y plant bob amser yn hoff iawn o honi. 'Roedd yn barod bob amser i roddi y goreu a fedrai i bob achos da. Gadawodd mewn galar ac unigedd o'i cholli, fam a llawer o berthynasau. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent Capel-y-bryn, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog y Parch. S. E. Bowen, yn cael ei gynorthwyo gan Mr. Dewi Jones a'r Parch. Glyn Edwards.

Awst 4, William Jones, Clifton Hill, Pontshaen, Llandysul, yn 64 oed. Mab ydoedd i'r diweddar William a Mary Jones, Gelliaur ac yr oedd llawer o nodweddion ei rieni ynddo yntau. Bu am lawer o flynyddoedd yn gweithio ymhyllau glo Sir Forgannwg ac wedi hynny'n Sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn weithiwr egniol a medrus—yn un a roisai gyflawn waith am y tâl. Collodd ei gymhar tua 22 o flynyddoedd yn ôl pryd y cafodd ei adael a phump o blant ieuainc i'w dwyn i fyny ac o bopeth ellir ei ddyweud am dano y pennaf yw hyn—iddo fod yn dad hawddgar a rhyfeddol o ofalus. Er ei fod ymhell o dref yn ennill ei fara, gofalodd fod y plant gartref yn cael popeth ac yr oedd ei angen arnynt. A gofalodd ei bod yn cael manteision addysg lled dda. Collodd ei fab hynaf—yr hwn oedd yn yr ysgol yn paratoi i'r weinidogaeth—yn y rhyfel mawr. Effeithiodd hyn yn drwm arno ac ni fu byth mor llawen wedi hynny. Collodd ei iechyd yn enbyd rhyw bedair mlynedd yn ôl ac am gyfnod maith cafodd ymgeledd gofalus ei chwiorydd yn ei hen gartref yn Gelliaur ond yn herwydd cystudd blin un o honynt—a fu farw rai misoedd yn ôl—gorfu iddo fynd at ei ferch hynaf a'i theulu i 45, Coelbren Square, Gwauncaegurwen; yno eto cafodd pob tynerwch ac yno hefyd y

bu farw. Dygwyd ei gorff adref i Gelliaur y Sadwrn dilynol ac o'r hên nyth yr hebryngwyd ei weddillion i ymyl eiddo ei briod yn mynwent Llwynrhydowen y Llun dilynol. Gadawodd mewn galar dair merch, mab (Parch. Dewi James Jones, gweinidog Capelygroes a Chribyn), tair chwaer, dau frawd a llawer o berthynasau ereill. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchn. E. O. Jenkins a S. E. Bowen.

Dydd Gwener, Awst 5, Samuel Thomas, Blaenpant, Horeb, Llandysul, yn 44 oed. Mab ydoedd i'r diweddar John Thomas, Glanrafon, Llwynrhydowen a'i briod Sarah Thomas. Cyfarfod a damwain wnaeth ar ei ffordd at ei waith i'r Cei Newydd ar gefn beic modur. Yr oedd yn fore niwlog ac nid oedd ei olygon yntau'n rhy dda, a'r farn yw mae rhwng y ddau beth iddo redeg y modur i'r clawdd ac yna cael ei daflu i ffwrdd ei hun. Cafodd ergyd lled ddrwg a bu farw yr un dydd. Gadawodd weddw ieuanc, tri o blant, mam oedrannus, brawd a nifer luosog o gyfeillion i wylo ei farw cynnar. Bachgen a hoffid yn fawr oedd Sam—yr oedd mor ddymunol mewn cwmni ac mor barod i gymwynas. Yr oedd yn ei elfen yn gwneud cymwynas. Claddwyd y Mercher dilynol yn Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. E. J. Davies, Bangor Teify—yn y capel a'r fynwent gan y Parch. E. O. Jenkins. Yr oedd yn angladd lluosog iawn a rhoddwyd nifer fawr o bleth dorchau a blodau ar yr arch a'r bedd : yr oll yn arwydd o barch a chydymdeimlad.

Awst 9, yn 64 mlwydd oed, bu farw William Davies, Glyn View, Cwmanne, Llanbedr, neu "William Crydd" fel y'i hadweinid yn gyffredin. Yr oedd wedi'i gaethiwo i'w dŷ ers misoedd gan glefyd y galon a chredaf ei fod wedi torri'i galon oherwydd gorfod byw heb waith. Ychydig a wyddom am bryder pobl sy'n gorfod byw ar y *dole* heb obaith am waith. O leiaf dyna yr argraff a roe ein cyfaill arnom. Gŵr tawel a distaw ydoedd : arwr y mannau cudd. Yr oedd pawb yn hoff ohono ac anaml yn awr y ceid ei le yn wâg yn y cwrdd na'r Ysgol Sul. Claddwyd ym mynwent Eglwys Brondeifi a'r Gweinidog yn gwasanaethu. Gadawodd blant a pherthynasau eraill mewn galar o golli un a fu'n nawdd a chefn iddynt.

Ar y 15eg o Awst, bu farw Sarah Jenkins, Tynberth, yn 63 oed, gan adael dwy ferch ac wyres, ynghyd a brawd a dwy chwaer, a pherthynasau agos eraill, mewn hiraeth o'i cholli. Ym Meddygdy Aberystwyth y bu farw ; aed â hi yno er mynd tan driniaeth feddygol ; aeth trwy'r driniaeth, fel y tybid, yn llwyddiannus ; yn fuan, fodd bynnag, gwaethygodd, a bu farw yr un diwrnod. Gyda'i marw hi, daw cysylltiad y teulu â Thynberth i derfyn. Bu'n deulu lluosog un adeg ; a buont yn fynychwyr ac aelodau ffyddlon o gapel Cribyn ; ac y mae dau o honynt eto yn para'n ffyddlon. Collodd ei brawd —John Jenkins—yn ddisymwth ychydig gyda blwyddyn yn ôl, a thybir i hynny adael ei ôl arni. Buont fyw gyda'i gilydd yn Nhynberth ym mron drwy eu hoes yn gyfan ; ac i'w rhieni fel i'w brawd bu'n ferch a chwaer dda. Benyw dawel, di-sonamdani, ydoedd ; eithr benyw a berchid yn fawr fel cymdoges gan gylch ei chydnabod. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Eglwys Dihewid y dydd Gwener dilynol, y cynhebrwng yn anghyhoedd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. D. Evans a Dewi J. Jones ; ac yn Nihewid gan Ficer Ciliau.

Awst 19, Nancy Jones, Sychdy, Prengwyn, Llandysul, gweddw y diweddar Edward Jones, Ceginann, Tregroes, yn 90 oed. Treuliodd flynyddoedd lawer yn Ceginann ond wedi colli ei phriod a gwasgar o'r plant aeth i Sychdy i fyw at ei merch a'i mab yng nghyfraith ac yno cafodd bob gofal a thynerwch. Cafodd fel y gwelir oes hirfaith ac ar y cyfan mwynhaodd iechyd da. Nid o gystudd y bu farw—diflannu'n sydyn wnaeth heb i'r teulu gael ond y rhybudd lleiaf o hyny ar yr aelwyd ganol dydd. I un o'i hoedran aeddfed hi yr oedd yn farwolaeth odidog.

Benyw a gadwodd yn ieuanc hyd y diwedd oedd hi—ieuanc ei ffordd—ieuanc ei meddwl a'i hysbryd fel y medrai pobl ieuanc ac hyd yn oed blant deimlo'n gartrefol yn ei chwmni. Yr oedd yn gymydoges garedig a bu o gynorthwy i lawer mewn caledi. Yr oedd capel a mynwent Pantdefaid yn bethau cysegredig iddi a phan yn methu cyrchu yno ei hun o Ceginann yn herwydd pellder y ffordd gofalai fod y plant yno. Bu mab iddi yn flaenor y gân yno am flynyddau lawer a merch a fu farw'n ieuanc yn un o'r organyddesau. Ychydig fisoedd yn ôl—i ddathlu ei phenblwydd—rhoddodd wledd o De i gynulleidfa'r lle ac i ugeiniau o gyfeillion o'r tu allan. Gadawodd i alaru ei cholli ddwy chwaer oedrannus, dwy ferch, tri mab (un o honynt yn Awstralia) a llawer o berthynasau agos ereill. Cymerodd yr angladd—un bron anarferol luosog—le y Mawrth dilynol. Pregethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Mr. Marles Thomas a'r Parchn. D. A. Williams, (A), Carmel; D. A. Thomas, (E), Llandysul, R. Morris (B), Llandysul a Tom Davies (A), Horeb.

Nodion yr Eglwysi.

BRONDEIFI.—Rhoes Mr. Daniel Jenkins, Plasterer, Heol y Coleg, Llanbedr, £40 i Eglwys Brondeifi, er cof am ei frawd John Jenkins a oedd yn flaenor gyda ni. O ochr ei fam hannai Mr. Jenkins o deulu Undodaidd yng Nghwrtnewydd ac yn gefnder i'r diweddar Barch. T. Arthur Thomas. Dymunwn iddo ddiwedydd teg yn ei unigedd a'i lesgedd.

BRONDEIFI.—Hwyr Sul, Gorff. 17, cynhaliwyd Cwrdd Arbennig ym Mrondeifi, a'r capel yn llawn. Yr oedd yma hefyd gynrychiolwyr o Alltyblaca, Caeronnen a Chapel-y-groes. Cwrdd anrhegu Mr. William Hefin Williams, Glaslwyn, Llanbedr ydoedd, ac yntau wedi ymddiswyddo o fod yn Ysgrifennydd Cymanfa'r Ysgolion Sul am yn agos i ddeg mlynedd ar hugain. Nid oes angen sôn am Mr. Williams, fe geir manylion amdano yn yr YMOFYNNYDD rhyw flwyddyn neu ragor yn ôl, digon yma yw dywedyd ein bod yn gwerthfawrogi ei sêl a'i lafurus gariad. Ni cheisiaf i gyfleithu i'r Gymraeg y rhodd, ond dywedaf gyda'r Saeson iddo gael "A Whittington and Westminster Chiming Clock, pair of bronzes and a wallet of notes." Ar y Cloc ceid yr ysgrifen,—

"Rhodd Ysgolion Sul Alltyblaca, Brondeifi, Caeronnen a Chapel-y-groes i W. Hefin Williams, Ysgrifennydd Cymanfa'r Ysgolion am chwarter canrif."

Siaradwyd yn y cwrdd a thalwyd teyrnged uchel o barch i Mr. Williams gan y Gweinidog, ac estynnwyd y Cloc iddo ar ran y pedair Ysgol Sul gan Mr. Watkin Davies, Blaencruser, yr Ysgrifennydd newydd. Siaradwyd ar ran Brondeifi gan Mri. David Davies, Timothy Evans a Gruffydd Jones Davies; ar ran Alltyblaca gan Mr. Watkin Davies; ar ran Caeronnen gan Miss Sallie Davies, B.A. a Mr. Llewelyn Davies, Llwynonn ac ar ran Capelygroes gan y Cynghorwr John Evans, Beili Cadarn. Canwyd yn ystod y Cyfarfod donau Hefin ei hun: Memorial, St. Dewi, Llwyn, Dolydd Eang a Marles. Yr oedd yn flin gan bawb na fedrai Mrs. Williams fod yn bresennol ond weithian y mae hithau yn mwynhau sain y *chimes*. Hydref tawel iddynt yn sain y *chimes* ac i weithio eto ym Mrondeifi.

CAPELYGROES A CHRIBYN.—Yn ddiweddar, anrhegwyd Capel-y-groes â Beibl hardd at wasanaeth y pulpud gan Mrs. Davies, Hendryd

Villa, Aberystwyth. Merch i'r diweddar Mr. a Mrs. John Jones, Hendryd, ydyw Mrs. Davies; ac er cof am gysylltiad ei theulu â Chapelygroes y gwnaeth y weithred garedig. Bu teulu'r Hendryd yn deulu lluosog un adeg, eithr nid oes yn fyw yn awr ond dwy ferch; ac er nad ydynt yn byw yn y gymdogaeth, eto nid yw eu serch at Capelygroes wedi oeri. Teimla'r gynulleidfa'n ddiolchgar iddi —Hefyd, y mae Mrs. Jenkins, Glanafon, Cribyn, wedi rhoddi £20 at yr achos. Merch i'r diweddar Mr. a Mrs. Evan Morgan, Moelfre, ydyw Mrs. Jenkins. Bu teulu'r Moelfre, hefyd, yn deulu lluosog un adeg, ac yn gefnogwyr ffyddlon i'r achos yng Nghapelygroes. Y maent hwythau hefyd wedi cilio, ac nid oes yn fyw yn awr ond dwy chwaer. Er mai i Gribyn yr arferai Mrs. Jenkins gyrchu wedi iddi ymsefydlu ym Maesnewydd eto amlwg ydyw yr erys ei serch at Gapelygroes yn fyw iawn. Diolch yn fawr iddi hithau.—Y mae Mr. Jenkins, hefyd, wedi rhoddi £20 at yr achos yng Nghribyn, er cof am ei gysylltiad ef a'i deulu â'r lle. Yr oedd tylwyth ei fam, y diweddar Mrs. Jenkins, Llechwedd-dderi-uchaf, a fu farw ychydig flynyddoedd yn ôl yn 96 oed, ymhlith cychwynwyr yr achos yng Nghribyn. Ganed hithau yn 1810, ac ymaelododd yn ieuanc iawn (tua'r ugain oed); a bu'n aelod ffyddlon trwy'r blynyddoedd hyd ei marw. Ychydig amser yn ôl, rhoddodd Thomas Jenkins, ei frawd, £20 at yr achos. Diolchwyd yn gynnes iddo ef a'i briod am eu rhoddion gan y ddwy gynulleidfa.

GRAIG, TREBANOS.—Prynhawn dydd Iau, Gorffennaf yr 21ain, cynhaliwyd Sosial yn ysgoldy y Graig, i groesawu y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., Hinckley a'i briod, ar ei symudiad i Drebanos. Ar ôl y mwyniant yn yr ysgoldy, cafwyd cyfarfod adloniadol yn y capel. Cadeiriwyd gan y cyn-weinidog. Cafwyd adroddiadau a chanu; anerchwyd Mr. a Mrs. Jones gan y beirdd. Traddododd Mrs. Lewis, Glanbran (gynt o Frongelyn) ei hanerchiad barddonol ar gân, yn ddoniol dros ben. Atebodd Mr. Jones drosto ef ei hun a thros ei briod. Cyfarfod teuluol Gellionnen a'r Graig oedd hwn yn bennaf. Ar ddydd Iau, Gorffennaf yr 28ain, cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus i groeshawu y gweinidog newydd yng Nghapel y Graig. Arweiniwyd yn y rhan ddefosiynol gan y Parch. T. L. Jones, Cefncoed. Cymerwyd y gadair gan y cyn-weinidog, yr hwn ar ran yr eglwys a roddodd y croesaw cynhesaf i'r brodyr a'r chwiorydd o bob rhan o'r Deheudir a oedd yn bresennol. Rhoddwyd hanes yr alwad a'r derbyniad yn gryno a destlus gan Mr. John Hopkin, Brynderw. Croeshawyd Mr. Jones ar ran yr Ysgol Sul, ac Urdd Gobaith Cymru, Cangen y Graig, gan Mr. Lewis Morgan, Clydach. Siaradwyd ar ran y Gymdeithas Gymraeg, yn absenoldeb yr Ysgrifennydd, gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr. Dywedodd Mr. Williams yn ei ddull cellweirgar ei hun, ei fod wedi cael ei fawr siomi mai nid iddo ef ei hun y daeth yr alwad, ond fod y siom wedi cael ei thyneru i ryw fesur, am mai i un o'i blant ef ei hun o hen eglwys Caeronnen y daeth yr alwad. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith mai brodorion o Geredigion oedd y rhan amlaf o weinidogion yr eglwys yn ystod y cant a deg ar hugain mlynedd diweddaf. Enwodd John James, John Evans, T. J. Jenkins, Dafydd Rees, a J. D. Jones. Siaradodd y Parch. E. R. Lee, M.A. fel *District Minister*, Cymdeithas De-Ddwyrain Cymru, a Miss Hargrove, Penmaen, ar ran Urdd y Benywod; y Parch. J. Park Davies, M.A., dros y Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin, a'r Bwrdd Presbyteraidd; Mr. Gordon Davies, dros eglwys Caerdydd; y Parch. T. L. Jones, dros eglwys y Cefn; y Parch. D. T. Evans, dros eglwys y Nottage; Mr. George Payne, Penygraig, fel ysgrifennydd Cymdeithas De-Ddwyrain Cymru. Ar ran eglwysi y cylch siaradwyd gan y Parchn. J. Tywi Jones, y Glais, (Golygydd "Y Darian"); Seiriol Williams, Tabernacl; W. Davies, Mount Elim; J. G. Evans, Ynysmeudw; Roberts, y Wesleaid Cym-

reig; Daniel John, Gosen; W. J. Rees, Alltwen; a Bowen, B.A., y Glais. Darllenwyd gwifr neges oddiwrth Mr. W. S. Jones, Aberystwyth, (Trysorydd y Gymdeithas Gymreig), yn datgan ei flinder am ei anallu i fod yn bresennol. Darllenwyd hefyd lawer llythyr i'r un perwyl oddiwrth eraill, ym mhlith y rhai y gellir nodi yn arbennig lythyr oddiwrth Mr. Ginns, Ysgrifennydd yr Eglwys yn Hinckley, yn datgan eu colled yno fod Mr. Jones wedi ymadael, ac yn dwyn tystiolaeth uchel i'w waith yn ystod y tymor o fwy na phum mlynedd y bu yn llafurio yn y Dref honno. Darllenwyd hefyd lythyr oddiwrth Miss Wragg, Ysgrifennydd ysgolion Sul y *North Midlands*, yn traethu ei gofid am ymadawiad Mr. Jones, ac yn dwyn tystiolaeth am y gwaith rhagorol oedd Mr. Jones wedi ei wneyd fel Ysgrifennydd y Gymdeithas o'i blaen hi. Yn yr hwyr am saith o'r gloch, a'r capel yn orlawn, a chadeiriau ar hyd yr ochrau, dechreuwyd yr oedfa gan y Parch. J. Park Davies; pregethwyd y siars i'r eglwys gan y cyn-weinidog, y Parch D. G. Rees, ac i'r gweinidog gan y Parch. T. Oswald Williams. Da oedd gennym weled cynifer o ymwelwyr o Gaerfyrddin, Aberdâr a Llanbedr. Un peth a nodweddai y cyfarfodydd hyn yn arbennig oedd y nifer luosog o weinidogion o bob enwad o'r cylch oedd yn bresennol. Rhifasom chwech o weinidogion Undodaidd, chwech o weinidogion Annibynnwyr, dau o Fedyddwyr ac un Weslead. Yr hyn sydd yn arwyddo fod y teimladau goreu wedi bodoli rhwng y weinidogaeth yng Ngellionnen a'r Graig yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf, a gweinidogion pob enwad yn y cylch. "Parhaed brawdgarwch." Y mae y cyfarfodydd selog a brwdfrydig hyn wedi bod yn "send off" ragorol i Mr. Jones, ac yn argoeli, ni a obeithiwn, ddyfodol hapus a llwyddiannus iddo yn ei waith yn yr ardal boblog hon. Yng nghyfarfod y prynhawn rhoddwyd croesaw arbennig i Mrs. Jones, mam y gweinidog newydd, o'r gadair. Sierhawyd hi nad oedd eisiau iddi bryderu dim am ddyfodol John, ond iddo gael iechyd. Ei fod wedi dyfod i le da, ac i blith pobl garedig, ac os na fuasai rhyw amgylchiadau yn codi, nad oedd arwydd o honynt uwchlaw y gorwelion yn awr, nad oedd yr un rheswm iddo beidio aros yma am ei oes yn y weinidogaeth. D.G.R.

DYCHWELYD.

Dôi rhyw lais o'r hendre lwyd,
" Hwylia'n ôl i hen aelwyd
Ym min y môr, a man mae
Ton a chorwynt yn chwarae.
O'r tir pell tyred bellach,
A thyn at y bwthyn bach;
Ni thyr storm ddieithr ei stŵr,
Na gwaneg ni rydd gynnwr',
Ac o'r lan i'r hafan hen
Y cei olud teg heulwen."

Codwyd angor o'r môr maith,
Hwyliwyd tua'r hen dalaith,
Yr oedd Mai yng ngwyrdd y môr,
Ac arian ar y goror,
Yr awelon yn llonydd,
Hynaws y don nos a dydd.

Wedi erwydro bro a bryn
Adref mae tynfa erwydryn,
Tramwy ni wnaf i mwyach
O dremyn y bwthyn bach,
Er mai pridd sy'n lawr iddo,
A golau gwan dan ei dô,
Er yn llwm, a'i furiau'n llwyd,
Daw rhyw olud i'r aelwyd.

Bob blwyddyn daw'r deryn du
Yn gynnar yma i ganu,
A'r wennol ddaw'n ôl yn hy
I hawlio ei hen wely.
Efo'r adar gwnaf aros
Yn nhŷ fy nhad hyd fin Nos.

Prengwyn. IFAN JONES.

J. D. Lewis, Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.

(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.

By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.

(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.

An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVERSMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.